

Tribiwnlys  
Addysg Cymru



Education Tribunal  
for Wales

Tribiwnlys Addysg Cymru

# Canllawiau apelio

### Y canllaw hwn

Nod y canllaw hwn yw eich helpu drwy'r broses apelio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gyda Thriwlynys Addysg Cymru (y Tribiwnlys). Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am apelïadau anghenion addysgol arbennig (AAA), ewch i'r [canllawiau ar ein gwefan flaenorol yma](#).

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio pob un o'r camau yn y broses apêl ADY, a pha gymorth sydd ar gael. Mae'n esbonio sut i wneud apêl, ond ni all ddweud wrthy ch a oes gennych siawns dda o lwyddo.

Clercod triwlynlysoedd yw'r staff sy'n prosesu apelïadau. Maent yn ateb eich llythyrau a'ch galwadau ffôn. Dim ond cwestiynau am weinyddu eich apêl y mae modd iddynt eu hateb. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu na allant roi eu barn, nac argymell a ddylech gymryd camau penodol.

### Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n gwneud apêl ADY i'r Tribiwnlys. Mae hyn yn cynnwys:

- plant a phobl ifanc dan 25 oed;
- rhieni plant o oedran ysgol gorfodol, ac iau;
- cyfeillion achos; a
- chynrychiolwyr.

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at ffurflen gais, y bydd angen i chi ei llenwi os ydych am wneud apêl i'r triwlynys. Mae'r ffurflen ar gael ar ein gwefan, neu fel copi print ar gais.

Mae'r Gofrestr Gyhoeddiadau yn rhestr o'r holl ganllawiau a ffurflenni. Mae'r gofrestr ar gael [ar ein gwefan](#).

### Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae'r Tribiwnlys yn clywed ac yn gwneud penderfyniadau ar apelïadau am anghenion

dysgu ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc, yn ogystal â hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae ein penderfyniadau'n rhwymo mewn cyfraith.

### Prif Amcan a Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Prif fwriad y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i bob parti gydweithredu â'i gilydd, a'r Tribiwnlys, i symud yr apêl yn ei blaen. Gall hyn gynnwys cyfnewid gwybodaeth a dogfennau gyda phartion eraill, neu gydweithio â cheisiadau'r Tribiwnlys yn fwy cyffredinol.

### Dewis iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb ym mha bynnag iaith a ddefnyddiwyd, ac ni fydd gohebu yn y naill iaith neu'r llall yn arwain at oedi ein hymateb.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

### Adnoddau gwybodaeth

- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)
- [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#)

# Cynnwys

<b>1 Penderfynu a ddylid gwneud apêl</b>	
- Pwy all apelio?	3
- Yn erbyn beth allaf i apelio?	3
- Am beth allaf i apelio?	4
- Pa benderfyniadau y gall y Tribiwnlys eu gwneud?	5
- Pa bwerau sydd gan y Tribiwnlys mewn perthynas â'r GIG?	6
- Beth arall allaf ei wneud?	6
- Pa gymorth a allaf ei gael?	7
- Faint o amser y mae'r cyfan yn ei gymryd?	7
- Oes rhaid i mi dalu unrhyw beth?	7
<b>2 Gwneud apêl</b>	
- Terfynau amser	8
- Sut ydw i'n gwneud apêl?	8
- Oes rhaid i mi anfon y cais apêl fy hun?	8
- Pa wybodaeth y mae angen i mi ei rhoi i chi?	9
- Pa ddogfennau y dylwn i eu hanfon gyda'r cais apêl?	11
- Oes rhaid i mi anfon dogfennau gwreiddiol?	11
<b>3 Ar ôl i ni dderbyn eich apêl</b>	
- Beth sy'n digwydd nesaf?	12
- Beth yw datganiad achos?	12
- Oes rhaid i mi anfon datganiad achos?	12
- Beth fydd yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach yn ei wneud ynghylch fy apêl?	13
- Beth os na fydd yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach yn ymateb?	13
- Beth sy'n digwydd i'r datganiad achos?	13
- Tynnu apeliadau yn ôl	13
<b>4 Mynd i'r gwrandawriad</b>	
- Pryd byddwch yn rhoi gwybod i mi beth yw dyddiad y gwrandawriad?	14
- Ble fydd fy ngwrandawriad y cael ei gynnal?	14
- Faint o'r gloch fydd fy ngwrandawriad yn dechrau a pha mor hir fydd e?	14
- Pwy fydd yn clywed fy apêl?	15
- Oes rhaid i mi ddod i'r gwrandawriad?	15
- Pwy all ddod i'r gwrandawriad?	15
- Pwy all ddod i'r gwrandawriad gyda'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach?	16
- Pa dreuliau allaf i ei hawlio?	17
- Rhagor o wybodaeth am wrandawriadau	17
<b>5 Penderfyniad y Tribiwnlys</b>	
- Pryd fyddaf yn gwybod penderfyniad y Tribiwnlys?	18
- Faint o amser sydd gan yr awdurdod lleol i gyflawni gorchymyn?	18
- Beth os nad yw'r awdurdod lleol yn dilyn y penderfyniad?	18
- Beth allaf ei wneud os nad ydw i'n hapus am eich penderfyniad?	19

## 1. Penderfynu a ddylid gwneud apêl

### Pwy all apelio?

Os yw'r apêl yn ymwneud â phlentyn o oedran ysgol gorfodol, neu iau, gall y bobl ganlynol apelio:

- 1) Y plentyn
- 2) Rhiant y plentyn
- 3) Cyfaill achos plentyn nad oes ganddo alluedd meddyliol
- 4) Cynrychiolydd y plentyn neu'r rhiant

Os yw'r apêl yn ymwneud â pherson ifanc, dros oedran ysgol gorfodol, a hyd at 25 oed, gall y bobl ganlynol apelio:

- 1) Y person ifanc
- 2) Cynrychiolydd person ifanc

Mae unrhyw gyfeiriad at riant yn cyfeirio at berson sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am y plentyn o fewn diffiniad Deddf Addysg 1996.

Gall cyfeillion achos gynorthwyo plant nad oes ganddynt alluedd, a'u helpu i arfer eu hawliau, neu weithredu ar eu rhan. Rhaid iddynt gyflwyno ffurflen gais fel datganiad o addasrwydd i'w chymeradwyo gan y Tribiwnlys. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am rôl cyfaill achos yn y llyfryn *Plant nad oes ganddynt alluedd, a chyfeillion achos (ETW9)* [ar ein gwefan](#), neu gallwch gysylltu â ni a gofyn am gopïau papur drwy'r post.

Gall cynrychiolydd fod yn siarad neu'n gweithredu dros bobl ifanc a rhieni plant nad oes ganddynt alluedd. Gall wneud cais i'r tribiwnlys ac arwain achosion o'r dechrau i'r diwedd, gan roi sylw dyledus i les gorau ei gleient. Ceir rhagor o wybodaeth yn y llyfryn *Pobl ifanc, neu rieni plant, nad oes ganddynt alluedd (ETW10)* [ar ein gwefan](#).

### Yn erbyn beth allaf i apelio?

Gallwch apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Byddant yn dweud wrthyfych pan fydd gennych hawl i apelio.

Os yw ysgol yn cynnal cynllun datblygu unigol eich plentyn, ni allwch apelio yn erbyn yr ysgol. Rhaid i chi ofyn i'r awdurdod lleol cyfrifol adolygu'r sefyllfa yn gyntaf. Penderfyniad awdurdod lleol yw'r penderfyniad y gallech apelio yn ei gylch i'r Tribiwnlys.

## Am beth allaf i apelio?

Gallwch apelio i'r Tribiwnlys ynghylch:

Penderfyniad gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
Yn achos person ifanc, penderfyniad gan awdurdod lleol ynghylch a oes angen llunio a chynnal cynllun datblygu unigol (CDU)
Y disgrifiad o ADY person mewn CDU (gan gynnwys dyddiadau dechrau, adolygu a gorffen arfaethedig)
Y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) mewn CDU, neu'r ffaith nad yw'r DDdY ofynnol yn y CDU
A yw CDU yn dweud y dylid darparu DDdY yn Gymraeg
Yr ysgol neu'r sefydliad, neu fwyd a llety, a enwir mewn CDU at ddiben diwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY
Yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben sicrhau lle yn yr ysgol, neu os na enwir ysgol mewn CDU at ddiben sicrhau lle
Penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio â newid CDU pan fo plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc wedi gofyn i'r awdurdod lleol ailystyried CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol a gynhelir
Penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU, y mae ysgol yn ei gynnal, pan fo'r plentyn neu ei riant, person ifanc neu gorff llywodraethu'r ysgol honno wedi gofyn i'r awdurdod lleol ei gynnal yn lle'r ysgol
Penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU
Wrthodiad i benderfynu ar fater ar y sail nad oes newid mewn anghenion neu unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad blaenorol

**Os yw'r apêl yn ymwneud â pherson a gedwir yn gaeth (plentyn neu person ifanc):**

Penderfyniad yr awdurdod cartref ynghylch a oes gan berson a gedwir yn gaeth ADY
Penderfyniad yr awdurdod cartref ynghylch a fydd angen cynnal CDU ar gyfer person a gedwir yn gaeth pan gaiff ei ryddhau o leoliad cadw
Disgrifiad o ADY y person mewn CDU
Y DDdY mewn CDU, neu'r ffaith nad yw'r DDdY wedi'i chynnwys yn y cynllun (DDdY sy'n gymwys ar ôl rhyddhau'r unigolyn o leoliad cadw)

A yw CDU yn dweud y dylid darparu DDdY yn Gymraeg
Yr ysgol neu'r sefydliad, neu fwyd a llety, a enwir mewn CDU, i ddiwallu anghenion rhesymol am DDdY (yr unigolyn i gael ei dderbyn ar ôl ei ryddhau o leoliad cadw)
Yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben sicrhau lle yn yr ysgol (sef derbyn lle yn yr ysgol pan gaiff ei ryddhau o leoliad cadw);
Os na enwir ysgol mewn CDU ar gyfer sicrhau lle i'r unigolyn ar ôl ei ryddhau o leoliad cadw
Gwrthodiad i benderfynu a oes gan berson a gedwir yn gaeth ADY ar y sail bod ei awdurdod cartref wedi gwneud penderfyniad o'r fath yn y gorffennol, nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol naill ai ar y penderfyniad hwnnw neu ar benderfyniad a fydd angen cynllun pan gaiff ei ryddhau

## Pa benderfyniadau y gall y Tribiwnlys eu gwneud?

Os yw'r Tribiwnlys yn cytuno ag apêl, mae ganddo'r pŵer i wneud Gorchymyn. Bydd y Tribiwnlys yn ysgrifennu'r Gorchymyn yn ei adroddiad ar ei benderfyniad.

Yn dibynnu ar y math o apêl, gall y Tribiwnlys:

- wrthod yr apêl;
- gorchymyn bod gan berson, neu nad oes gan berson, ADY o fath a nodir yn y gorchymyn;
- gorchymyn i sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol lunio CDU;
- gorchymyn i sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ddiwygio CDU fel y gwêl yn dda;
- gorchymyn i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol barhau i gynnal CDU (gyda neu heb newidiadau);
- gorchymyn i awdurdod lleol ysgwyddo cyfrifoldeb am gynnal CDU;
- gorchymyn i sefydliad addysg bellach neu i awdurdod lleol adolygu CDU; a
- throsglwyddo'r achos i sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater. Bydd angen iddynt ailystyried a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gwahanol ar ôl gweld penderfyniad y Tribiwnlys.

## Pa bwerau sydd gan y Tribiwnlys mewn perthynas â'r GIG?

Caiff y Tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i un o gyrff y GIG ddarparu tystiolaeth am arfer swyddogaethau'r corff a gwneud argymhellion i un o gyrff y GIG am arfer swyddogaethau'r corff.

Os bydd y Tribiwnlys yn gwneud argymhelliad i un o gyrff y GIG, rhaid i'r corff hwnnw adrodd i'r Tribiwnlys, cyn pen 6 wythnos i'r dyddiad y gwnaed yr argymhelliad. Rhaid i'r adroddiad ddatgan:

- y cam gweithredu a gymerodd corff y GIG neu y mae'n bwriadu ei gymryd i ymateb i argymhelliad y Tribiwnlys; neu
- pam nad yw'r corff wedi cymryd unrhyw gam gweithredu a pham nad yw'n bwriadu gwneud hynny mewn ymateb i'r argymhelliad.

## Beth arall allaf ei wneud?

### GIG: Gweithio i Wella

Os yw eich anghytundeb ynghylch unrhyw beth sy'n ymwneud â gwasanaeth a ddarperir gan y GIG, efallai y gallwch ddatrys y mater yn gynt drwy ei drafod gyda nhw yn gyntaf. Bydd [GIG: Gweithio i Wella](#) yn eich helpu i godi pryderon am wasanaethau'r GIG, a gweithio tuag at ddod o hyd i ateb.

### Gwasanaethau datrys anghytundebau awdurdodau lleol

Hyd yn oed os byddwch yn gwneud apêl, dylech siarad â'ch awdurdod lleol i geisio dod i gytundeb gyda nhw neu sefydliad addysg bellach. Rhaid i bob awdurdod lleol gael gwasanaethau datrys anghytundebau annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn ymdrin ag anghydfod rhwng rhieni a phlant neu bobl ifanc, yr awdurdod lleol, ac ysgolion neu sefydliadau addysg bellach mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhaid i'ch awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth am sut i gael mynediad i'w wasanaeth datrys anghydfod annibynnol.

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r gwasanaeth cyn apelio i'r Tribiwnlys, byddwn yn ymestyn eich terfyn amser i wneud cais 8 wythnos. Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r gwasanaeth ar ôl i ni gofrestru eich apêl, gallwch wneud cais i lywydd y Tribiwnlys am gael oedi'r broses apelio am 8 wythnos. Mae'n bosib y byddwch am oedi'r apêl rhag ofn i'r gwasanaeth lwyddo i ddatrys yr anghydfod. Nid yw defnyddio, neu beidio â defnyddio, y gwasanaeth datrys anghytundebau yn effeithio ar eich hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

Efallai y byddwch hefyd am barhau i drafod yr anghytundeb gyda'r awdurdod lleol heb y gwasanaeth datrys anghytundebau. Os byddwch, drwy'r trafodaethau hyn, neu drwy'r gwasanaeth datrys anghytundebau, yn dod i unrhyw gytundebau gyda'r awdurdod lleol, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys.

## **Dulliau eraill o herio**

Yn ogystal â'r gwasanaethau uchod, gallech hefyd gysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru, sy'n darparu cyngor a gwasanaeth ymchwilio am ddim, neu Gomisiynydd y Gymraeg, os yw'r mater yn ymwneud â darpariaeth Gymraeg.

Gallwch hefyd gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a all ystyried cwynion gweithdrefnol am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrrff y GIG.

## **Pa gymorth a allaf ei gael?**

Dylai'r awdurdod lleol fod wedi dweud wrthy ch am y grwpiau canlynol sy'n cynnig cyngor:

- gwasanaethau eirioli annibynnol;
- sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu pobl ag anghenion dysgu ychwanegol;
- grwpiau rhieni;
- cefnogwyr rhieni annibynnol; a
- chynghorwyr partneriaethau rhieni.

Dylai'r awdurdod lleol hefyd fod wedi dweud wrthy ch am Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) y gallwch weithio gydag ef i geisio datrys y materion rydych chi'n apelio yn eu herbyn. Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn defnyddio gwasanaeth GIG fel rhan o'i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, efallai y bydd swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn gallu eich cynorthwyo gyda gwybodaeth am eu gwasanaethau.

Rhaid i'r awdurdod lleol bob amser ddarparu mynediad at wasanaethau eirioli annibynnol rhad ac am ddim. Mae eiriolwyr yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol i unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau datrys anghytundebau neu sy'n ystyried dod i'r Tribiwnlys. Mae'r gwasanaeth am ddim, a gallant eich cynorthwyo mewn sawl ffordd wahanol.

Efallai y bydd gennych hawl i gymorth cyfreithiol (arian cyhoeddus) i gael help i baratoi eich apêl. Bydd Cymdeithas y Cyfreithwyr neu'ch canolfan cyngor ar bopeth leol yn gallu rhoi enwau cyfreithwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun cymorth cyfreithiol ac sydd â phrofiad o'r materion hyn.

## **Faint o amser y mae'r cyfan yn ei gymryd?**

Mae'r broses o apelio, o'r adeg y byddwn yn derbyn eich apêl hyd at pan fyddwn yn gwneud penderfyniad terfynol, fel arfer yn cymryd rhwng pedwar a phum mis. Gall gymryd mwy o amser yn dibynnu ar y math o achos neu ba mor gymhleth ydyw.

## **Oes rhaid i mi dalu unrhyw beth?**

Nid yw'r Tribiwnlys yn codi tâl am ei wasanaeth.



## 2. Gwneud apêl

### Terfynau amser

Mae terfyn amser o 8 wythnos ar gyfer apelio i ni. Rhaid i ni dderbyn eich apêl a'ch datganiad achos dim hwyrach nag 8 wythnos o'r dyddiad y dywedodd yr awdurdod lleol wrthyfych mewn llythyr am ei benderfyniad terfynol.

Nid oes rhaid anfon apeliadau a datganiadau achos ar yr un pryd. Er enghraifft, gallwch anfon eich cais yn wythnos 2, ac anfon eich datganiad achos yn wythnos 7. Gweler Cam 3 am ragor o wybodaeth am ddatganiadau achos.

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r gwasanaeth datrys anghytundebau cyn i chi apelio i'r Tribiwnlys, bydd gennych 8 wythnos ychwanegol i wneud cais. Byddai hyn yn gwneud y terfyn amser yn 16 wythnos o ddyddiad llythyr penderfyniad yr awdurdod lleol. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym eich bod wedi defnyddio'r gwasanaeth datrys anghytundebau os byddwch yn gwneud cais yn ystod y cyfnod ymestyn hwn o 8 wythnos.

Rhaid i'ch awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth am sut i gael mynediad i'w wasanaeth datrys anghytundebau annibynnol.

### Sut ydw i'n gwneud apêl?

I wneud apêl, rhaid i chi lenwi ac anfon cais apêl i'r Tribiwnlys. Gallwch anfon ceisiadau atom drwy'r post neu drwy e-bost. Mae'r ffurflen ar gael ar ein gwefan, neu fel copi print ar gais.

Os byddwch yn anfon cais drwy e-bost, rhaid iddo gynnwys eich llofnod electronig. Os yw eich cynrychiolydd yn gwneud cais ar eich rhan, rhaid iddo ddefnyddio ei lofnod electronig. Fel arall, gallwch argraffu, llofnodi, sganio ac yna anfon copi drwy e-bost.

### Oes rhaid i mi anfon y cais apêl fy hun?

Na, ond rhaid i'r person sy'n apelio lofnodi'r cais apêl. Mae hyn yn golygu y gallwch gael help i baratoi ac anfon eich cais, ond rhaid i chi ei lofnodi eich hun. Os oes gennych gynrychiolydd, gall ei lofnodi os ydych wedi rhoi caniatâd iddo.

Sylwch mai dim ond at y person a ddewisir ar y cais apêl y byddwn yn anfon gwybodaeth am yr apêl. Bydd angen i chi dicio un o'r blychau ar y cais i ddweud wrthym pwy rydych yn dymuno iddo dderbyn gwybodaeth am yr apêl. Os na fyddwch yn ticio blwch, byddwn yn anfon y wybodaeth at y person cyntaf a enwir (y person sy'n gwneud yr apêl).

Os oes gennych gynrychiolydd, a'ch bod am iddo dderbyn yr holl lythyrau a phapurau ar gyfer yr apêl, dylech roi ei enw a'i gyfeiriad. Os byddwch yn dewis eich cynrychiolydd, bydd yn derbyn holl bapurau'r Tribiwnlys, ac ni fyddwch yn derbyn unrhyw beth cyn y gwrandawriad; dim ond y penderfyniad terfynol y byddem ni'n ei anfon atoch ar ôl ei gyhoeddi. Cyfrifoldeb eich cynrychiolydd fydd rhannu papurau gyda chi.

Rhaid i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig os byddwch yn penderfynu rhoi'r gorau i ddefnyddio eich cynrychiolydd, neu os bydd ei fanylion yn newid.

## Pa wybodaeth y mae angen i mi ei rhoi i chi?

Mae ein ffurflen gais yn gofyn am yr wybodaeth angenrheidiol, ond bydd y rhestr gwirio isod yn dweud wrthyfych pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys.

	X
Enw a chyfeiriad y person sy'n gwneud yr apêl ac, os yw ar gael, ei rif ffôn a'i gyfeiriad e-bost	
Enw a dyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc	
Os yw'n berthnasol, perthynas neu gysylltiad y person sy'n gwneud yr apêl â'r plentyn neu'r person ifanc	
Enw a chyfeiriad unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos y person sy'n gwneud yr apêl ac, os yw ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd neu'r cyfaill achos	
Cyfeiriad ac, os yw ar gael, cyfeiriad e-bost, lle dylid anfon hysbysiadau a dogfennau ar gyfer y sawl sy'n gwneud yr apêl	
Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r sefydliad addysg bellach a wnaeth y penderfyniad sy'n destun anghydfod	
Y dyddiad y cafodd y person sy'n gwneud yr apêl gadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad sy'n destun anghytundeb	
Y rheswm neu'r rhesymau dros wneud yr apêl	
Y canlyniad a ddymunir	
Y camau a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod (os o gwbl)	
Unrhyw ofynion cyfathrebu a dewisiadau'r plentyn neu'r person ifanc	

**Os oes unrhyw gamau wedi'u cymryd i ddatrys yr anghydfod:**

Pa gamau sydd wedi'u cymryd i ddatrys yr anghydfod	
--	--

**Os yw'r apêl yn ymwneud â phlentyn:**

<p>Enwau a chyfeiriadau pawb sydd:</p> <p>â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu yn gofalu am y plentyn.</p> <p>Os na allwch ddarparu'r manylion hyn, rhaid i chi egluro pam.</p>	
<p>Cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi dweud wrth bawb sydd:</p> <p>â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu; yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu yn gofalu am y plentyn</p> <p>eich bod yn gwneud hawliad.</p> <p>Os nad ydych wedi dweud wrth y bobl hyn eich bod yn gwneud hawliad, rhowch resymau pam nad ydych wedi dweud wrthynt.</p>	

**Os hoffai'r person sy'n gwneud yr apêl i'r Tribiwnlys wneud gorchymyn bod CDU yn cael ei newid, rhaid i'r cais apêl ddweud:**

Pa adran neu adrannau o'r CDU y mae'r apêl yn ymwneud â nhw	
---	--

**If the person making the appeal would like the Tribunal to make an order for a placement at a school or other institution, the appeal application must include:**

Enw a chyfeiriad yr ysgol neu sefydliad arall	
<p>(Os yw'n ysgol a gynhelir)</p> <p>Cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi dweud wrth yr awdurdod lleol sy'n ariannu'r ysgol a gynhelir eich bod yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried gorchymyn lleoliad yn ei ysgol</p>	
<p>(Os yw'n ysgol annibynnol)</p> <p>Cadarnhad ysgrifenedig gan berchennog yr ysgol annibynnol bod lle ar gael yn yr ysgol, a chadarnhad eich bod wedi dweud wrtho eich bod yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried gorchymyn lleoliad yn ei ysgol</p>	
(Os yw'n unrhyw sefydliad arall heblaw ysgol a gynhelir neu ysgol annibynnol)	

Cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi sefydlu a oes darpariaeth addas ar gael yn y sefydliad.	
--	--

### **Pa ddogfennau y dylwn i eu hanfon gyda'r cais apêl?**

Lle bo modd, dylech gynnwys y dogfennau hyn gyda'ch cais apêl:

Copi o'r llythyr penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn	
Copi o CDU y plentyn neu'r person ifanc, unrhyw ddogfennau sydd ynghlwm wrth y CDU, a chopïau o'r adolygiadau diweddaraf	
Datganiad achos.  Cofiwch, mae gan ddatganiadau achos yr un dyddiad cyflwyno â cheisiadau apêl; 8 wythnos o'r dyddiad yr anfonwyd y llythyr penderfyniad sy'n destun anghydfod atoch. Gweler Cam 3 am ragor o wybodaeth am ddatganiadau achos	

### **Oes rhaid i mi anfon dogfennau gwreiddiol?**

Gofalwch fod unrhyw ddogfennau a anfonwch atom yn llungopiau o'r gwreiddiol.

### 3. Ar ôl i ni dderbyn eich apêl

#### Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn cofrestru eich apêl ac yn anfon copi i'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach. Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom cyn y gallwn gofrestru eich apêl.

Unwaith i ni gofrestru eich apêl, byddwn yn dweud wrthy ch am anfon eich datganiad achos a'ch ffurflen bresenoldeb cyn diwedd y terfyn amser o 8 wythnos.

Dyddiad cau'r datganiad achos yw dyddiad cau'r datganiad apêl; 8 wythnos o'r dyddiad i chi dderbyn llythyr penderfyniad yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach. Os yw'n agos at y dyddiad cau, rydym yn eich cynghori i gyflwyno eich datganiad achos ar yr un pryd â'ch apêl. Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i gael cyngor.

#### Beth yw datganiad achos?

Eich datganiad achos yw'r wybodaeth a'r dystiolaeth rydych chi am i ni edrych arni fel rhan o'ch apêl. Gallwch ddarparu safbwyntiau pobl, dogfennau pwysig, llythyrau, ac unrhyw beth arall sy'n cefnogi'ch achos yn eich tyb chi. Gweler ein llyfryn *Canllaw i ymgeiswyr ar baratoi datganiad achos ar gyfer apel (ETW4)* [ar ein gwefan](#) i gael rhagor o wybodaeth.

#### Oes rhaid i mi anfon datganiad achos?

Oes. Yn y man lleiaf, rhaid i chi anfon y wybodaeth ganlynol atom fel rhan o'ch datganiad achos.

- barn y plentyn neu'r person ifanc ar y materion dan sylw yn yr apêl, neu
- y rheswm pam nad ydych yn darparu barn y plentyn neu'r person ifanc.

Os yw'r apêl yn ymwneud â phlentyn:

- barn rhieni'r plentyn ar y materion dan sylw yn yr apêl, neu
- y rheswm pam nad ydych yn darparu barn y rhieni.

Un o reolau Rheoliadau'r Tribiwnlys yw eich bod yn darparu'r safbwyntiau hyn. Bydd panel y tribiwnlys yn disgwyl i chi gynnwys y wybodaeth hon yn eich datganiad achos, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

## **Beth fydd yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach yn ei wneud ynghylch fy apêl?**

Byddwn yn anfon copi o'ch apêl a'ch datganiad achos i'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach. Rhaid i'r awdurdod neu'r sefydliad baratoi ymateb a'i anfon i'r tribiwnlys o fewn 4 wythnos ar ôl derbyn eich datganiad achos. Yr ymateb hwn fydd datganiad achos yr awdurdod neu'r sefydliad.

## **Beth os na fydd yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach yn ymateb?**

Os na fydd yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach yn anfon ymateb yn yr amser a ganiateir, bydd y Tribiwnlys yn ystyried pa gamau y dylai eu cymryd. Gall hyn gynnwys gwrthod caniatáu iddo gymryd unrhyw ran yn yr achos.

## **Beth sy'n digwydd i'r datganiad achos?**

Unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer anfon datganiadau achos atom wedi mynd heibio, byddwn yn anfon copi o'r holl bapurau sydd wedi dod i law atoch chi a'r awdurdod lleol.

Os bydd yr achos yn mynd i wrandawriad, bydd panel y tribiwnlys yn ystyried y datganiadau achos ac unrhyw ddogfennau a ddarperir gennych chi a'r awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach ymlaen llaw. Yna bydd yn ystyried y dystiolaeth sy'n cael ei chlywed ar y diwrnod, ac yn gofyn cwestiynau, i'w helpu i wneud penderfyniad am eich achos.

## **Tynnu apeliadau yn ôl**

Os byddwch yn penderfynu nad ydych am barhau â'r apêl mwyach, yna gallwch ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn y broses. I dynnu apêl yn ôl, dywedwch wrthym yn ysgrifenedig, drwy e-bost neu mewn llythyr.

## 4. Mynd i'r gwrandawriad

### **Pryd byddwch yn rhoi gwybod i mi beth yw dyddiad y gwrandawriad?**

Byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi y dyddiad a'r amser y cynhelir y gwrandawriad cyn gynted ag y bydd wedi'i drefnu.

Os yw'ch apêl yn ymwneud â gwrthod asesu, ni fydd angen i ni gynnal gwrandawriad gyda thystion (gwrandawriad llafar). Bydd y Tribiwnlys yn gwneud penderfyniad am eich apêl yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych chi a'r awdurdod lleol yn ei chyflwyno ar bapur (gwrandawriad papur). Os ydych yn teimlo bod angen gwrandawriad llafar, gofalwch eich bod yn ticio'r blwch i wneud cais am wrandawriad llafar ar eich ffurflen gais.

### **Ble fydd fy ngwrandawriad yn cael ei gynnal?**

Bydd eich gwrandawriad naill ai'n cael ei gynnal drwy alwad fideo neu wyneb yn wyneb.

Os cynhelir eich gwrandawriad drwy alwad fideo, byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn yn cadarnhau'r dyddiad. Byddwn hefyd yn darparu cyfarwyddiadau ymuno, awgrymiadau i sicrhau bod y cyfarfod yn digwydd heb drafferthion, ac yn gofyn a hoffech gael galwad brawf ychydig ddiwrnodau cyn y cyfarfod.

Rydym yn cynnal gwrandawriadau wyneb yn wyneb o fewn pellter teithio o awr o'ch cartref. Cânt eu cynnal mewn adeiladau cyhoeddus, fel gwestai, gan amlaf. Bydd y cyfarfod ei hun mewn ystafell breifat.

Rydym yn sicrhau bod pob lleoliad yn gwbl hygyrch i bobl sy'n defnyddio cymhorthion symud. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw anghenion penodol.

### **Faint o'r gloch fydd fy ngwrandawriad yn dechrau a pha mor hir fydd e?**

Mae gwrandawriadau'n dechrau am 10am fel rheol. Gall gwrandawriad gymryd drwy'r dydd ond maen nhw wedi gorffen erbyn 5pm gan amlaf.

Os yw'r gwrandawriad yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, dylech geisio cyrraedd o leiaf 30 munud cyn iddo ddechrau.

## **Pwy fydd yn clywed fy apêl?**

Bydd panel o 2 neu 3 aelod o'r Tribiwnlys yn clywed eich apêl.

Cadeirydd y Tribiwnlys, sef cyfreithiwr, fydd yn arwain y gwrandawriad. Bydd unrhyw aelodau eraill yn Aelodau Lleyg. Mae ganddynt wybodaeth a phrofiad arbenigol o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

## **Oes rhaid i mi ddod i'r gwrandawriad?**

Nid oes rhaid i chi ddod i'r gwrandawriad, ond bydd yn ddefnyddiol os ydych yno. Bydd y panel am glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud am eich achos ac efallai y bydd ganddynt gwestiynau i chi. Efallai y byddwch am ofyn cwestiynau hefyd.

Os byddwch yn penderfynu peidio â dod i'r gwrandawriad neu'n anfon cynrychiolydd, cewch gyfle i roi eich barn ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y datganiad achos. Yn yr achos hwn, dylid cyflwyno sylwadau ychwanegol i'r Tribiwnlys o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Fel hyn, gall eich sylwadau ar ddatganiad achos yr awdurdod lleol gael eu clywed yn y gwrandawriad.

## **Pwy all ddod i'r gwrandawriad?**

### **Y plentyn neu'r person ifanc**

Gall y plentyn neu'r person ifanc fynychu a rhoi tystiolaeth.

Mae'n debygol mai dim ond am ran o'r gwrandawriad y byddai'r panel am siarad â phlentyn. Rhaid i chi drefnu i rywun ofalu am blant os nad ydynt eisiau bod yno ar gyfer y gwrandawriad llawn. Ni fydd staff y tribiwnlys yn gallu gofalu am blant mewn gwrandawriadau a gynhelir wyneb yn wyneb. Sylwch hefyd, efallai na fydd lle addas yn yr adeilad i rywun ofalu am blentyn.

### **Cyfaill achos neu gynrychiolydd rhywun heb alluedd**

Gall cyfeillion achos plant nad oes ganddynt alluedd, a chynrychiolwyr pobl ifanc, neu rieni plant, nad oes ganddynt alluedd, fynychu'r gwrandawriad.

### **Eich cynrychiolydd**

Gallwch wahodd rhywun i'ch cynrychioli, p'un a ydych yn penderfynu dod ai peidio. Nid oes angen cymhwyster cyfreithiol ar y person hwnnw.

### **Rhieni'r plentyn**

Gall rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant yn achos plentyn ddod i'r gwrandawriad, hyd yn oed os nad dyma'r person sy'n gwneud yr apêl.



## **Sylwedydd**

Gallwch ddod ag un person i fod yn gefn i chi. Bydd yn gallu dod i mewn i'r gwrandawriad ond ni fydd yn gallu cymryd rhan na chymryd nodiadau.

## **Tystion**

Gallwch ddod â hyd at ddau dyst i'r gwrandawriad.

Gall dewis pwy i ddod â nhw fel tyst fod yn anodd. Dylai'r tystion a ddewiswch allu trafod prif faterion eich apêl sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc. Rhaid i dystion ddisgwyl ateb cwestiynau am eu tystiolaeth. Bydd angen gwybodaeth dda arnynt am y ffeithiau a'r rhesymu y tu ôl i'r wybodaeth a roddant.

Bydd angen i unrhyw dystion arbenigol roi barn broffesiynol gyda'u tystiolaeth, yn hytrach na dim ond cefnogi eich achos. Gall tystiolaeth arbenigol sy'n ymddangos yn unochrog golli hygredd.

## **Eiriolwr**

Gallwch ddod ag eiriolwr i gyfleu barn a dymuniadau plentyn, neu eich atgoffa o'ch hawliau.

## **Pwy all ddod i'r gwrandawriad gyda'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach?**

Gall yr awdurdod lleol ddod â chynrychiolydd, hyd yn oed os nad oes ganddynt gymhwyster cyfreithiol. Gall alw hyd at ddau dyst i'r gwrandawriad, a dod â sylwedydd ac eiriolwr hefyd. Byddwn yn ysgrifennu atoch cyn y gwrandawriad i gadarnhau pwy sy'n mynychu'r gwrandawriad.

## **Pa dreuliau allaf i eu hawlio?**

Gallwch chi a'ch tystion hawlio costau teithio i ddod i'r gwrandawriad. Os ydych yn dod â ffrind neu berthynas i ofalu am eich plentyn, byddwch yn gallu hawlio ei gostau teithio hefyd.

Dylech ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle y bo'n bosibl (teithio ar fws neu reilffordd dosbarth safonol). Os ydych yn teithio mewn car, gallwch hawlio swm penodol ar gyfer milltiroedd. Ni allwn dalu am barcio a thollau.

Ni fyddwn yn talu costau tacsï oni bai nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael, neu os oes gennych anghenion penodol. Rhaid i chi ddweud wrthym cyn defnyddio tacsï os ydych am hawlio costau teithio. Bydd angen i ni awdurdodi unrhyw hawliadau am gostau tacsï cyn i chi deithio.

Gall eich tystion hawlio swm penodol am golli enillion.

## **Rhagor o wybodaeth am wrandawiadau**

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y llyfrynnau *Canllaw ar wrandawiadau (ETW 16)*, *Canllaw i ymgeiswyr ar lenwi ffurflen presenoldeb (ETW14)*, *Canllaw i ymgeiswyr ar dreuliau (ETW18)* [ar ein gwefan](#).

## 5. Penderfyniad y Tribiwnlys

### Pryd fyddaf yn gwybod penderfyniad y Tribiwnlys?

Byddwn yn anfon y penderfyniad a'r rhesymau atoch drwy'r post, o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawriad fel arfer. Byddwn yn anfon y penderfyniad atoch chi, eich cynrychiolydd (os oes gennych un) a'r awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach.

### Faint o amser sydd gan yr awdurdod lleol i gyflawni gorchymyn?

Os yw'r Tribiwnlys yn cytuno â'ch apêl, mae ganddo'r pŵer i wneud gorchymyn. Rhaid i'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach gyflawni'r gorchymyn o fewn terfyn amser penodol, gan ddechrau o'r diwrnod ar ôl i ni gyhoeddi'r penderfyniad. Mae'r rhan fwyaf o derfynau amser yn 7 wythnos i awdurdodau lleol, a 35 diwrnod yn ystod y tymor ar gyfer sefydliadau addysg bellach, ond rhaid dilyn rhai gorchmynion ar unwaith. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y llyfryn canllaw *Gorchmynion apêl (ETW29)* [ar ein gwefan](#).

Mae amserlenni hefyd yn berthnasol pan fydd yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach yn dweud wrthym nad yw'n gwrthwynebu'r apêl.

### Beth os nad yw'r awdurdod lleol yn dilyn y penderfyniad?

Os nad yw'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach yn cadw at y gorchymyn o fewn yr amser a ddywedwn, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud cais i'r Uchel Lys i'w orfodi.

Fel arall, gallwch gwyno i'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus:

Cangen Anghenion Dysgu Ychwanegol  
Is-adran Cefnogaeth i Ddysgwyr  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

[additionallearningneedsbranch@llyw.cymru](mailto:additionallearningneedsbranch@llyw.cymru)

Gallwch hefyd wneud cwyn i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ

[www.ombwdsmon.cymru](http://www.ombwdsmon.cymru)

0300 790 0203

## **Beth allaf ei wneud os nad ydw i'n hapus am eich penderfyniad?**

Os ydych yn credu bod problem dechnegol gyda'r penderfyniad, neu sut y bu i ni wneud y penderfyniad, gallwch ofyn i ni ei adolygu. Ni fyddwn yn adolygu ein penderfyniad am nad ydych yn hapus gydag ef. Rhaid i ni dderbyn eich cais ysgrifenedig i'w adolygu o fewn 28 diwrnod ar ôl i ni gyhoeddi'r penderfyniad. Gall y Tribiwnlys wrthod derbyn cais i adolygu, neu ofyn am farn pob parti i wneud penderfyniad pellach.

Os credwch fod y penderfyniad yn anghywir ar bwynt cyfreithiol gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Apeliadau Gweinyddol). I wneud hyn, yn gyntaf rhaid i chi wneud cais i ni am ganiatâd i apelio. Rhaid i ni dderbyn y cais am ganiatâd i apelio dim hwyrach na 28 diwrnod o'r dyddiad ar y llythyr a anfonwyd atoch gyda'r penderfyniad. Os na fyddwn yn rhoi caniatâd, gallwch ddal i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd, ond ni fydd yn ystyried y cais oni bai eich bod yn gwneud cais i Dribiwnlys Addysg Cymru am ganiatâd yn gyntaf. Byddwch angen caniatâd i apelio naill ai gan Dribiwnlys Addysg Cymru neu'r Uwch Dribiwnlys cyn y gallwch gyflwyno'r apêl.

Ceir rhagor o wybodaeth yn y llyfryn *Caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys: Canllawiau (ETW22)* [ar ein gwefan](#).